Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| **CYFARWYDDIAETH:** | Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc |
| **ADRAN:** | Gwasanaethau Cymorth i Blant a Theuluoedd/Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd/Gwasanaethau Ar Ffiniau Gofal |
| **SWYDD:** | Gweithiwr Cymorth i Deuluoedd (Camfanteisio) |
| **GRADD Y SWYDD:** | GR07 |
| **YN ATEBOL I'R:** | Uwch-ymarferydd (Camfanteisio) |

**DIBEN Y SWYDD:**
Fel rhan o Wasanaeth ar Ffiniau Gofal Pen-y-bont ar Ogwr, darparu cymorth o ansawdd uchel, dwys i blant, pobl ifanc a theuluoedd y mae camfanteisio yn effeithio arnynt. Bydd deiliad y swydd yn gweithio'n uniongyrchol gyda phobl ifanc sydd mewn perygl o gamfanteisio neu sy'n profi camfanteisio ar hyn o bryd — gan gynnwys camfanteisio troseddol, rhywiol ac ar-lein — yn ogystal â gweithio gyda'u rhieni a'u gofalwyr i leihau risg, gwella diogelwch, a meithrin gwydnwch.
Gan weithio o dan oruchwyliaeth yr Uwch-ymarferydd (Camfanteisio), bydd y rôl yn cynnwys darparu ymyriadau strwythuredig, sy'n seiliedig ar dystiolaeth a fydd yn cynorthwyo newid ymddygiad, yn cryfhau perthnasoedd, ac yn mynd i'r afael ag ysgogwyr sylfaenol bod yn agored i niwed. Bydd deiliad y swydd yn defnyddio dulliau diogelu sy'n ystyriol o drawma, yn seiliedig ar gryfderau, a chyd-destunol i weithio'n hyblyg ac yn greadigol gyda theuluoedd, yn aml yn ystod cyfnodau o risg a chymhlethdod uwch.
Bydd y Gweithiwr Cymorth Camfanteisio yn gweithredu fel rhan o dîm amlasiantaethol sydd wedi'i gyd-leoli sy'n cyd-fynd â'r Strategaeth Camfanteisio leol ac ethos Ystyried y Teulu Pen-y-bont ar Ogwr, gan chwarae rhan allweddol wrth atal uwchgyfeirio i ofal statudol a chynorthwyo pobl ifanc i aros yn ddiogel yn eu teuluoedd a'u cymunedau. Efallai y bydd angen gweithio gyda'r nos ac ar benwythnosau er mwyn diwallu anghenion teuluoedd a sicrhau cymorth amserol, ymatebol ar adegau tyngedfennol.

---

**PRIF GYFRIFOLDEBAU A GWEITHGAREDDAU:**

- Cyflwyno ymyriadau wedi'u teilwra, sy'n seiliedig ar dystiolaeth i blant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr i leihau'r risg sy'n gysylltiedig â chamfanteisio.
- Gweithio'n ddwys gyda theuluoedd gan ddefnyddio dulliau sy'n ystyriol o drawma, sy'n seiliedig ar gryfderau a dulliau ysgogol i gynyddu ffactorau amddiffynnol.
- Meithrin perthnasoedd ymddiriedol gyda phobl ifanc a allai fod yn anodd ymgysylltu â nhw, gan sicrhau bod eu llais a'u profiad bywyd yn llywio'r gwaith.
- Cynnwys rhieni/gofalwyr i adeiladu capasiti a dealltwriaeth o gamfanteisio, gan gynorthwyo cynllunio diogelwch a arweinir gan deuluoedd.

- Darparu allgymorth pendant i leihau niwed, gan gynnwys gwaith cymunedol, ymweliadau ysgol, a chyswllt partneriaeth.
- Gweithio ar y cyd mewn gwasanaeth camfanteisio wedi'i gyd-leoli, amlasiantaethol a chyda phartneriaid ehangach fel addysg, cyfiawnder ieuenctid, yr heddlu, ac iechyd.
- Defnyddio dull diogelu cyd-destunol i asesu risgiau y tu allan i'r teulu ac ymateb iddynt.
- Ymateb i sefyllfaoedd argyfwng yn bwyllog ac yn effeithiol, gan gynnwys uwchgyfeirio pryderon diogelu yn unol â phrosesau statudol.
- Cynnal cofnodion achosion cywir a chyfredol yn unol â chanllawiau adrannol.
- Defnydd offer a mesurau y cytunwyd arnynt i olrhain cynnydd, casglu adborth a gwerthuso effaith.
- Cyfrannu at asesiadau, adroddiadau, cynlluniau diogelwch ac adolygiadau i safon uchel ac o fewn amserlenni y cytunwyd arnynt.
- Cymryd rhan mewn goruchwyliaeth fyfyriol a chyfrannu at ddatblygu'r tîm.

**DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL**

**Iechyd a Diogelwch**
Cyflawni'r rolau a chyfrifoldebau cyffredinol a phenodol a nodir yn y Polisi Iechyd a Diogelwch

**Cyfle Cyfartal**
Sicrhau bod pob gweithgaredd yn cael ei weithredu yn unol â deddfwriaeth cyfle cyfartal ac arfer gorau.

**Diogelu**
Mae amddiffyn plant, pobl ifanc neu oedolion mewn perygl yn un o gyfrifoldebau craidd pob cyflogai. Dylid rhoi gwybod am unrhyw bryderon i'r Tîm Diogelu Oedolion neu'r Gwasanaeth IAA Plant o fewn MASH.

**Adolygiad a Hawl i Amrywio**
Mae'r Disgrifiad Swydd hwn fel yr un cyfredol a chaiff ei adolygu'n rheolaidd. Efallai y bydd gofyn i chi gyflawni tasgau eraill y gellir eu neilltuo i chi'n rhesymol, gan gynnwys gweithgareddau datblygu, sydd o fewn eich gallu a'ch gradd.

**Gwiriad Cofnodion Troseddol**
Mae'r swydd hon yn ei gwneud yn ofynnol cael gwiriad cofnodion troseddol drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

# Manyleb y Person

## Gweithiwr Cymorth i Deuluoedd (Camfanteisio)

Mae'r priodoleddau canlynol yn cynrychioli amrediad y sgiliau, y galluoedd a'r profiad ac ati sy'n berthnasol i'r swydd hon. Disgwylir i'r ymgeiswyr fodloni'r priodoleddau sydd wedi'u nodi fel rhai hanfodol.

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau, Addysg a Hyfforddiant** | • FfCCh (NVQ) Lefel 3 neu gymhwyster Iechyd a Gofal Cymdeithasol cyfwerth neu'n gallu dangos cymhwysedd drwy brofiad. | Ydy | Cyflwyno Tystysgrifau Cymwysterau gwreiddiol a ffurflen gais. |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | • Profiad o weithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n hysbys i'r gwasanaethau cymdeithasol.<br>• Profiad o weithio gyda phobl ifanc sy'n agored i niwed y mae camfanteisio yn effeithio arnynt.<br>• Gwybodaeth am fathau o gamfanteisio (e.e. troseddol, rhywiol, ar-lein), dangosyddion risg, a fframweithiau cyfreithiol/gweithdrefnol.<br>• Profiad o gyflwyno ymyriadau strwythuredig sy'n cefnogi newid cadarnhaol ac yn lleihau risg.<br>• Profiad o feithrin perthnasoedd ymddiriedgar gyda phlant a theuluoedd a allai fod yn wrthwynebol i gyfranogiad proffesiynol neu ofn hynny.<br>• Gwybodaeth a dealltwriaeth ymarferol o'r fframwaith deddfwriaethol a rheoliadol sy'n sail i waith gyda phlant a'u teuluoedd gan gynnwys gweithdrefnau amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed ac arferion gan gynnwys y System Derbyn Gofal. | Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais, a phroses ddethol. |
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol** | • Ymrwymiad i ddysgu a datblygu parhaus wrth gymhwyso arferion plant a theuluoedd sy'n seiliedig ar dystiolaeth.<br>• Ymateb i argyfwng mewn modd amserol ac effeithiol gyda'r gallu i | <br>Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais, a phroses ddethol. |

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol (Parhad)** | reoli a delio â sefyllfaoedd sensitif ac emosiynol heriol.<br>• Gallu ymateb i argyfwng yn bwyllog ac yn effeithiol.<br>• Gallu ymgysylltu â phobl ifanc a rhieni yn gadarn ac yn greadigol.<br>• Gallu cynorthwyo teuluoedd i nodi a gweithredu strategaethau i leihau niwed sy'n gysylltiedig â chamfanteisio.<br>• Gallu dadansoddi gwybodaeth a chyfathrebu'n glir ar lafar ac yn ysgrifenedig.<br>• Gallu gweithio'n annibynnol ac yn gydweithredol mewn lleoliad amlasiantaethol.<br>• Hyblygrwydd i weithio gyda'r nos ac ar benwythnosau fel y bo'n ofynnol.<br>• Sgiliau TG a threfnu da.<br>• Trwydded yrru lawn ddilys y DU a mynediad at gerbyd.<br>• Gallu gweithio o safbwynt seiliedig ar gryfderau, gwrthwahaniaethol.<br>• Mae'r gallu i gyfarch cwsmeriaid drwy gyfrwng y Gymraeg yn un o'r gofynion ar gyfer y swydd hon. | Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais, a phroses ddethol. |